

Dyddiad cyhoeddi: 23 Awst 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

"Ar dudalen 16 adroddiad blynyddol 2020/21, nodir bod y gwaith o lanhau pob gorsaf rheilffordd yn drwyadl wedi'i gwblhau yn 2020... "

Yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, rwyf yn gwneud cais am yr wybodaeth ganlynol:

- 1. Dyddiad(au) glanhau trylwyr yn y gorsafoedd canlynol: Amwythig, Yorton, Wem, Prees, yr Eglwys Wen, Wrenbury a Nantwich.*
- 2. Cwmpas dangosol y gwaith a wnaed.*
- 3. Manylion unrhyw waith sy'n weddill."*

Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydyn ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:

1. Dyddiadau glanhau trylwyr:

Gorsaf	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Cwblhau
Amwythig	25/02/2019	28/02/2019
Yorton	21/02/2019	25/02/2019
Wem	20/02/2019	24/02/2019
Prees	19/02/2019	20/02/2019
yr Eglwys Wen	15/02/2019	17/02/2019
Wrenbury	14/02/2019	16/02/2019
Nantwich	23/10/2019	24/10/2019

2. Cwmpas dangosol y gwaith a wnaed. Gweler y fanyleb sydd ynghlwm.

3. Manylion unrhyw waith sy'n weddill: Nid oes rhagor o waith glanhau trylwyr i'w wneud fel rhan o'r Rhaglen Gwella Gorsafoedd.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".